O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 3

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*13 Ionawr 2026*
Yn dod i rym	*5 Chwefror 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 3

The Education (Student Finance) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made	*13 January 2026*
Coming into force	*5 February 2026*

£14.80

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 3

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sydd mewn wyth Rhan, yn diwygio amryw reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyllid myfyrwyr, ac mewn cysylltiad ag ef.

Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â'r Rheoliadau hyn i rym a'u cymhwyso. Mae Rhan 2 a Rhannau 4 i 8 yn gwneud diwygiadau i'r rheoliadau a ganlyn—

(a) mae Rhan 2 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2310 (Cy. 181)) ("Rheoliadau 2007"),

(b) mae Rhan 4 yn diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1484 (Cy. 163)) ("Rheoliadau 2015"),

(c) mae Rhan 5 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/47 (Cy. 21)) ("Rheoliadau 2017"),

(d) mae Rhan 6 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/191 (Cy. 42)) ("Rheoliadau 2018"),

(e) mae Rhan 7 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/656 (Cy. 124)) ("y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol"), ac

(f) mae Rhan 8 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/895 (Cy. 161)) ("Rheoliadau 2019").

Mae Rhannau 2 a 4 i 8 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) cyfeiriadau at Aruba ac Antilles yr Iseldiroedd yn Rheoliadau 2007, Rheoliadau 2015, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, i adlewyrchu newidiadau yn statws y tiriogaethau hynny,

(b) darpariaethau yn Rheoliadau 2007 a Rheoliadau 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr fod yn bresennol yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf cwrs, er mwyn egluro'r gofynion ar gyfer personau sy'n dod o fewn paragraffau 2A ac 8A o'r Atodlenni i'r Rheoliadau hynny,

(c) y diffiniadau o "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir" yn Rheoliadau 2007, Rheoliadau 2015, Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, i gynnwys personau y rhoddwyd caniatâd iddynt i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi fel partneriaid sydd wedi cael profedigaeth cyn-aelodau o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997, fel bod personau o'r fath a'u plant yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, y terfynau ffioedd a chymorth i fyfyrwyr,

(d) y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" yn Rheoliadau 2007, Rheoliadau 2015, Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, i adlewyrchu'r ffaith bod Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin newydd wedi cael ei ychwanegu at Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo,

(e) y gofynion o ran preswylio fel arfer ar gyfer gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir o dan Reoliadau 2007, Rheoliadau 2015, Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, er mwyn sicrhau cysondeb â geiriad gofynion cyfatebol ar gyfer aelodau o deulu personau o'r fath,

(f) Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 i ddileu cyfeiriadau darfodedig at fenthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge,

(g) darpariaethau sy'n ymwneud â benthyciadau uwch at gostau byw yn Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018, i sicrhau nad yw myfyrwyr sydd eisoes yn cael bwrsarïau gofal iechyd mewn cysylltiad â'r costau hyn yn gymwys, ac i ddileu cyfeiriadau at gorff cyhoeddus darfodedig yng Ngogledd Iwerddon,

(h) Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018 a Rheoliadau 2019, i ddileu cyfeiriadau darfodedig at ddarpariaethau coronafeirws,

(i) y broses ar gyfer cyfrifo swm y grantiau ar gyfer dibynyddion yn Rheoliadau 2018, fel y mae'n gymwys i bersonau sy'n ymadael â gofal, i sicrhau bod personau o'r fath yn gymwys i gael yr uchafswm, a

(j) y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, fel y bydd cymhwystra i gael cymorth yn terfynu pan fo caniatâd person i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi fel partner a ddiogelir wedi dod i ben.

Mae Rhan 3 yn dirymu Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/3037 (Cy. 303)) ac yn gwneud dirymiadau a hepgoriadau canlyniadol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Ariannu a Strategaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2026 Rhif 3

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*13 Ionawr 2026*
Yn dod i rym	*5 Chwefror 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983(**1**) ac adrannau 22(1)(a) a (2)(a) ac (c), a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**), a'r pwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**4**).

(**1**) 1983 p. 40. Diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p. 30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 5 ac Atodlen 22; Deddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 14, paragraff 9; O.S. 2005/3238 (Cy. 243), Atodlen 1, paragraff 9; O.S. 2010/1080, Atodlen 1, paragraff 12; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 1; Deddf Addysg 2011 (p. 21), Atodlen 5, paragraff 5 ac Atodlen 16, paragraff 5; Deddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), Atodlen 14, paragraff 33; a Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1), Atodlen 4, paragraff 2. Diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), Atodlen 4.

(**2**) 1998 p. 30. Diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 146(2)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 (O.S. 2006/1458), erthygl 2(a) gydag effaith o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o'r Ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1 gydag effaith o 1 Gorffennaf 1999. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44(1) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44(2) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 fod y swyddogaethau yn adran 22(2)(a) ac (c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i fod i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) 2015 dccc 1. Gweler adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

RHAN 1

Enwi, dod i rym a chymhwyso

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Chwefror 2026.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth, ac â ffioedd a dyfarndaliadau sy'n gymwys, mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio.

RHAN 2

Diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

Pennod 1

Cyflwyniad

3. Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**5**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

Pennod 2

Diwygiadau sy'n ymwneud ag Antilles yr Iseldiroedd

4. Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "tiriogaethau tramor"—

(a) hepgorer "Aruba;";

(b) yn lle "Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius a Sint Maarten)" rhodder "y rhan Garibïaidd o Deyrnas yr Iseldiroedd (Aruba, Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius a Sint Maarten)".

5. Yn yr Atodlen, ym mharagraffau 9B(5) a 9BA(3)—

(a) hepgorer "Aruba;";

(b) yn lle "Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten)" rhodder "y rhan Garibïaidd o Deyrnas yr Iseldiroedd (Aruba, Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius a Sint Maarten)".

Pennod 3

Diwygiad sy'n ymwneud â gofynion y diwrnod cyntaf

6. Yn lle rheoliad 4(2) (codi ffioedd) rhodder—

"(2) At ddibenion y rheoliad hwn mae person yn dod o fewn paragraff o'r Atodlen os yw'n dod o'i fewn—

(**5**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2023/87 (Cy. 17) ac O.S. 2025/16 (Cy. 6). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(a) ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd, pan mai blwyddyn academaidd gyntaf cwrs y person yw'r flwyddyn academaidd, neu

(b) fel arall, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd."

Pennod 4

Diwygiadau sy'n ymwneud â phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth cyn-aelodau o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a'u plant

7. Yn yr Atodlen, ym mharagraff 1, yn y diffiniad o "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir"—

(a) yn y geiriau o flaen is-baragraff (1), yn lle "o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o'r rheolau mewnfudo" rhodder "a roddwyd yn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn";

(b) yn is-baragraff (1), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "31 Ionawr 2024," mewnosoder "o dan";

(c) yn is-baragraff (2), yn y geiriau agoriadol, ar ôl "31 Ionawr 2024," mewnosoder "o dan";

(d) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar neu ar ôl 5 Hydref 2023 fel partner sydd wedi cael profedigaeth, o dan baragraff AF (GHK) 14.1 o Atodiad cyn-aelod o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997(**6**) i'r rheolau mewnfudo;

(4) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros cyn 5 Hydref 2023, y tu allan i'r rheolau mewnfudo, ar y sail bod y person yn bartner sydd wedi cael profedigaeth i Gurkha a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997;".

Pennod 5

Diwygiadau sy'n ymwneud â gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir

8. Yn yr Atodlen—

(a) Ym mharagraff 1, yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir", yn lle is-baragraff (a), ond nid y "neu" ar ei ôl, rhodder—

"(a) o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo—

(i) paragraff UKR 9.1(**7**) (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin);

(ii) paragraff UKR 19.1(**8**) (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin);

(**6**) Ychwanegwyd Atodiad cyn-aelod o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997 at y rheolau mewnfudo gan y Datganiad o Newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 7 Medi 2023 (HC 1780). Gellir dod o hyd i gopi electronig o HC 1780 ar https://www.gov.uk/government/publications/statement-of-changes-to-the-immigration-rules-hc-1780-7-september-2023.

(**7**) Dilëwyd paragraff UKR 9.1 gan y Datganiad o Newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 19 Chwefror 2024 (HC 556). Gellir dod o hyd i gopi electronig o HC 556 ar https://www.gov.uk/government/publications/statement-of-changes-to-the-immigration-rules-hc-556-19-february-2024.

(**8**) Mae'r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 11.1 i UKR 20.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-visa-under-the-ukraine-sponsorship-scheme.

(iii) paragraff UKR 27.1(**9**) (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin);

(iv) paragraff UKR 36.1(**10**) (Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin);";

(b) ym mharagraff 4C(1)(b), yn lle'r geiriau o "sydd" i "cyfnod" rhodder "sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly".

RHAN 3

Dirymu Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 a dirymiadau a hepgoriadau canlyniadol

9. Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(**11**) a Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021(**12**) wedi eu dirymu.

10. Mae'r darpariaethau a ganlyn wedi eu hepgor—

(a) paragraff 174 o Atodlen 3 i Reoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016(**13**);

(b) rheoliadau 42 i 45 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018(**14**);

(c) Rhan 3 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019(**15**);

(d) rheoliad 3 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau i Gymhwystra Myfyrwyr) (Cymru) 2019(**16**);

(e) rheoliadau 6 i 8 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020(**17**);

(f) Rhan 3 o Reoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021(**18**);

(g) rheoliadau 3 i 6 o Reoliadau Addysg (Cymhwystra ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygio) (Cymru) 2022(**19**);

(h) Rhan 3 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022(**20**);

(i) Rhan 3 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022(**21**);

(**9**) Dilëwyd paragraff 27.1 gan y Datganiad o Newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 26 Tachwedd 2024 (HC 334). Gellir dod o hyd i gopi electronig o HC 334 ar https://www.gov.uk/government/publications/statement-of-changes-to-the-immigration-rules-hc-334-26-november-2024.

(**10**) Mae Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 29.1 i 38.1 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/applying-to-the-ukraine-permission-extension-scheme.

(**11**) O.S. 2014/3037 (Cy. 303).

(**12**) O.S. 2021/1294 (Cy. 328).

(**13**) O.S. 2016/211 (Cy. 84).

(**14**) O.S. 2018/814 (Cy. 165).

(**15**) O.S. 2019/235 (Cy. 54).

(**16**) O.S. 2019/1192 (Cy. 209).

(**17**) O.S. 2020/1302 (Cy. 287).

(**18**) O.S. 2021/9 (Cy. 4).

(**19**) O.S. 2022/49 (Cy. 18).

(**20**) O.S. 2022/79 (Cy. 28).

(**21**) O.S. 2022/764 (Cy. 166).

(j) Rhan 3 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023(**22**);

(k) Rhan 3 a rheoliad 79 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023(**23**);

(l) Rhan 3 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024(**24**);

(m) Rhan 3 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025(**25**);

(n) Rhan 2 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025(**26**);

(o) Rhan 3 o Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2025(**27**).

RHAN 4

Diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

Pennod 1

Cyflwyniad

11. Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**28**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

Pennod 2

Diwygiadau sy'n ymwneud â gofynion y diwrnod cyntaf

12. Yn rheoliad 4 (disgrifiad rhagnodedig o berson cymhwysol)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "dod o fewn categori rhagnodedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd, ac eithrio—" rhodder "bodloni'r naill neu'r llall o'r amodau ym mharagraff (1A) ac nad yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r eithriadau ym mharagraff (1B).";

(b) hepgorer paragraff (1)(a) i (d);

(c) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Yr amodau yw—

Amod 1

Mae person yn dod o fewn naill ai paragraff 2A neu 8A o'r Atodlen—

(a) ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd, pan mai blwyddyn academaidd gyntaf cwrs y person yw'r flwyddyn academaidd, neu

(b) fel arall, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd.

(**22**) O.S. 2023/87 (Cy. 17).
(**23**) O.S. 2023/1349 (Cy. 243).
(**24**) O.S. 2024/810 (Cy. 131).
(**25**) O.S. 2025/16 (Cy. 6).
(**26**) O.S. 2025/193 (Cy. 42).
(**27**) O.S. 2025/728 (Cy. 125).
(**28**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2023/87 (Cy. 17) ac O.S. 2023/633 (Cy. 97). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Amod 2

Mae person yn dod o fewn categori rhagnodedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd.

(1B) Yr eithriadau yw—

(a) person nad yw'n gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau 2015 oherwydd rheoliad 4(3)(c), (d), (e) neu (f) o'r Rheoliadau hynny;

(b) person nad yw'n gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau 2017 oherwydd rheoliad 4(3)(c), (d), (e) neu (f) o'r Rheoliadau hynny;

(c) person nad yw'n gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau 2018 oherwydd ei fod yn berson y mae Eithriad 3, paragraff (a), Eithriad 4, Eithriad 5 neu Eithriad 6 yn rheoliad 10(1) o'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo;

(d) person a grybwyllir ym mharagraffau (2), (3), (3A) neu (8).”

Pennod 3

Diwygiadau sy'n ymwneud ag Antilles yr Iseldiroedd

13. Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o “tiriogaethau tramor”—

(i) hepgorer “Aruba;”;

(ii) yn lle “Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius a Sint Maarten)” rhodder “y rhan Garibïaidd o Deyrnas yr Iseldiroedd (Aruba, Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius a Sint Maarten)”;

(b) ym mharagraffau 9B(5) a 9BA(3)—

(i) hepgorer “Aruba;”;

(ii) yn lle “Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten)” rhodder “y rhan Garibïaidd o Deyrnas yr Iseldiroedd (Aruba, Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius a Sint Maarten)”.

Pennod 4

Diwygiadau sy'n ymwneud â phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth cyn-aelodau o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a'u plant

14. Yn yr Atodlen, ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o “person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir”—

(a) yn y geiriau o flaen paragraff (1), yn lle “o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o'r rheolau mewnfudo” rhodder “a roddwyd yn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn”;

(b) ym mharagraff (1), yn y geiriau agoriadol, ar ôl “31 Ionawr 2024,” mewnosoder “o dan”;

(c) ym mharagraff (2), yn y geiriau agoriadol, ar ôl “31 Ionawr 2024,” mewnosoder “o dan”;

(d) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar neu ar ôl 5 Hydref 2023 fel partner sydd wedi cael profedigaeth, o dan baragraff AF (GHK) 14.1 o Atodiad cyn-aelod o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997 i'r rheolau mewnfudo;

(4) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros cyn 5 Hydref 2023, y tu allan i'r rheolau mewnfudo, ar y sail bod y person yn bartner sydd wedi cael profedigaeth i Gurkha a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997;".

Pennod 5

Diwygiadau sy'n ymwneud â gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir

15. Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir", yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo—

(i) paragraff UKR 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin);

(ii) paragraff UKR 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin);

(iii) paragraff UKR 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin);

(iv) paragraff UKR 36.1 (Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin); neu";

(b) ym mharagraff 4C (gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir), yn is-baragraff (1)(b), yn lle'r geiriau o "sydd" i "cyfnod" rhodder "sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly".

RHAN 5

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

Pennod 1

Cyflwyniad

16. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**29**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

Pennod 2

Diwygiadau sy'n ymwneud â benthyciadau at ffioedd coleg

17. Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniadau o "benthyciad at ffioedd coleg", "cwrs cymhwysol", "ffioedd coleg" a "myfyriwr cymhwysol";

(b) yn y diffiniad o "ffioedd" hepgorer "ac eithrio mewn cyfeiriadau at ffioedd coleg".

18. Yn rheoliad 4 (myfyrwyr cymwys)—

(a) ar ôl paragraffau (9)(a)(i), (9A)(a)(i), (9B)(a)(i), (10)(a)(i), (10A)(a)(i), (10B)(a)(i), (10C)(a)(i), (10D)(a)(i) a (10F)(a)(i), yn lle "neu" rhodder "a";

(b) hepgorer paragraffau (9)(a)(ii), (9A)(a)(ii), (9B)(a)(ii), (10)(a)(ii), (10A)(a)(ii), (10B)(a)(ii), (10C)(a)(ii), (10D)(a)(ii) a (10F)(a)(ii);

(c) yng ngeiriau cloi paragraffau (9), (9A), (9B), (10), (10A), (10B), (10C), (10D), (10E) a (10F), hepgorer "neu fyfyriwr cymhwysol";

(**29**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2018/191 (Cy. 42), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/9 (Cy. 4), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/813 (Cy. 192), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2023/633 (Cy. 97) ac O.S. 2023/1349 (Cy. 243). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(d) ym mharagraff (10E)(a), hepgorer “neu’n fyfyriwr cymhwysol mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o gwrs cymhwysol”;

(e) ym mharagraff (11), yn lle “yn fyfyriwr rhan-amser cymwys, yn fyfyriwr cymwys neu’n fyfyriwr cymhwysol” rhodder “yn fyfyriwr rhan-amser cymwys neu’n fyfyriwr cymwys”;

(f) ym mharagraff (11A)(b), hepgorer “neu’n fyfyriwr cymhwysol”.

19. Yn rheoliad 10(2)(b) (terfynau amser) hepgorer “neu fenthyciad at ffioedd coleg o dan Atodlen 4” a “neu swm ychwanegol o fenthyciad at ffioedd coleg o dan baragraff 10(2) o Atodlen 4”.

20. Hepgorer Rhan 8 (benthyciadau at ffioedd coleg) ac Atodlen 4 (benthyciadau at ffioedd coleg).

Pennod 3

Diwygiadau sy’n ymwneud â phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth cyn-aelodau o’r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a’u plant

21. Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir”—

(a) yn y geiriau o flaen paragraff (1), yn lle “o dan unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a ganlyn o’r rheolau mewnfudo” rhodder “a roddwyd yn unrhyw un neu ragor o’r achosion a ganlyn”;

(b) ym mharagraff (1), yn y geiriau agoriadol, ar ôl “31 Ionawr 2024,” mewnosoder “o dan”;

(c) ym mharagraff (2), yn y geiriau agoriadol, ar ôl “31 Ionawr 2024,” mewnosoder “o dan”;

(d) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar neu ar ôl 5 Hydref 2023 fel partner sydd wedi cael profedigaeth, o dan baragraff AF (GHK) 14.1 o Atodiad cyn-aelod o’r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997 i’r rheolau mewnfudo;

(4) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros cyn 5 Hydref 2023, y tu allan i’r rheolau mewnfudo, ar y sail bod y person yn bartner sydd wedi cael profedigaeth i Gurkha a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997;”.

Pennod 4

Diwygiadau sy’n ymwneud â gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir

22. Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir”, yn lle is-baragraff (a), ond nid y “neu” ar ei ôl, rhodder—

“(a) o dan unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a ganlyn o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo—

(i) paragraff UKR 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin);

(ii) paragraff UKR 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin);

(iii) paragraff UKR 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin);

(iv) paragraff UKR 36.1 (Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin);”.

23. Yn Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys), ym mharagraff 4ZC (gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir), yn is-baragraff (1)(b), yn lle'r geiriau o "sydd" i "cyfnod" rhodder "sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly".

Pennod 5

Diwygiadau sy'n ymwneud â benthyciadau at gostau byw

24. Yn rheoliad 23(7)(e)(iv) (amodau cyffredinol yr hawl i gael grantiau at gostau byw)—

(a) yn lle "Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol neu'r" rhodder "yr";

(b) yn lle "adrannau 7 a 12" rhodder "adran 12".

25. Yn rheoliad 50(3) (codiadau yn yr uchafswm), ar y diwedd mewnosoder "neu sy'n cael bwrsari gofal iechyd neu fwrsari gofal iechyd cyffredinol a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr, boed swm y cyfrifiad yn ddim ai peidio".

Pennod 6

Diwygiadau sy'n ymwneud â'r coronafeirws

26. Hepgorer rheoliad 46(3) a (4) (myfyrwyr sy'n preswylio gyda'u rhieni) a rheoliad 52(fa) (dehongli Rhan 6).

RHAN 6

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

Pennod 1

Cyflwyniad

27. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**30**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

Pennod 2

Diwygiadau sy'n ymwneud â benthyciadau at ffioedd coleg

28. Hepgorer rheoliad 3(15), Rhan 16 (benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge) ac Atodlen 5 (benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge).

29. Yn rheoliadau 22(1)(a)(iii) (ffoaduriaid y mae eu caniatâd i aros wedi dod i ben), 22A(1)(a)(iii) (personau y mae eu caniatâd i aros fel personau diwladwriaeth wedi dod i ben), 23(1)(a)(iii) (personau eraill y mae eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben), 23A(1)(a)(iii) (personau y mae eu caniatâd i aros o dan adran 67 wedi dod i ben), 23B(1)(a)(iii) (personau y mae eu caniatâd Calais wedi dod i ben), 23C(1)(a)(iii) (personau y mae eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros fel partner a ddiogelir wedi dod i ben), 23D(1)(a)(iii) (personau y mae eu caniatâd i aros o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswylio wedi dod i ben), 23F(1)(a)(iii) a 23G(1)(a)(iii) hepgorer "neu baragraff 7 o Atodlen 5".

30. Yn rheoliad 33 (y terfyn amser ar gyfer gwneud cais), yn Nhabl 1, yn yr ail res ar ôl y rhes teitl, yn lle'r testun yng Ngholofn 1 rhodder—

(**30**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2020/708 (Cy. 159), O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/73 (Cy. 19), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/79 (Cy. 28), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2023/87 (Cy. 17), O.S. 2023/1349 (Cy. 243), O.S. 2024/86 (Cy. 24), O.S. 2024/810 (Cy. 131), O.S. 2025/16 (Cy. 6) ac O.S. 2025/193 (Cy. 42). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

"Mae'r cais am fenthyciad at ffioedd dysgu neu fenthyciad cynhaliaeth.

Mae'r cais am swm ychwanegol o fenthyciad at ffioedd dysgu o dan reoliad 42 neu fenthyciad cynhaliaeth o dan reoliad 60".

31. Yn Atodlen 1 (dehongli), paragraff 6(1) (dehongli termau allweddol eraill), yn y diffiniad o "ffioedd" hepgorer "ond nid yw'r diffiniad hwn yn gymwys i ffioedd colegau Oxbridge (gweler Atodlen 5)".

32. Yn Atodlen 7 (mynegai o dermau wedi eu diffinio), paragraff 1, yn Nhabl 16, hepgorer yr ymadroddion a ganlyn yng Ngholofn 1 a'r cofnodion cyfatebol yng Ngholofn 2—

(a) "ffioedd coleg";

(b) "cwrs Oxbridge dynodedig";

(c) "myfyriwr Oxbridge cymwys";

(d) "benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge";

(e) ""cyfnod cymhwystra" (mewn perthynas â chwrs Oxbridge dynodedig)";

(f) ""blwyddyn academaidd safonol" (mewn perthynas â chwrs Oxbridge dynodedig)".

Pennod 3

Diwygiadau sy'n ymwneud â'r coronafeirws

33. Yn rheoliad 19 (terfynu cymhwystra yn gynnar), yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Ond nid yw paragraff (2) yn gymwys os yw P yn ymgymryd â chwrs dysgu o bell y tu allan i'r Deyrnas Unedig oherwydd bod P neu berthynas agos i P yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog."

34. Yn rheoliad 39 (amodau cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu), Eithriad 4; rheoliad 44 (amodau cymhwyso i gael y grant sylfaenol a'r grant cynhaliaeth), Eithriad 5; rheoliad 54 (amodau cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth), Eithriad 4; rheoliad 62 (amodau cymhwyso i gael grant myfyriwr anabl), Eithriad 5 a rheoliad 69 (amodau cymhwyso i gael grantiau ar gyfer dibynyddion), Eithriad 8, yn lle'r geiriau o "Ond" hyd at ddiwedd yr Eithriad, rhodder—

"Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan na fo M yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs oherwydd bod M, neu berthynas agos i M, yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog y tu allan i Gymru."

35. Hepgorer rheoliad 86(4) a (5) (myfyrwyr sy'n byw mewn mwy nag un lleoliad).

36. Yn Atodlen 1 (dehongli), paragraff 6(1), hepgorer y diffiniad o "coronafeirws".

Pennod 4

Diwygiad sy'n ymwneud â benthyciadau at gostau byw

37. Yn rheoliad 57 (benthyciad cynhaliaeth wedi ei gynyddu ar gyfer myfyrwyr llawnamser yn ystod blynyddoedd estynedig), ar ôl paragraff (7) mewnosoder—

"(8) Ond nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i flwyddyn academaidd—

(a) y rhoddwyd i'r myfyriwr neu y talwyd iddo, mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno, fwrsari gofal iechyd a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr, pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio, neu

(b) o gwrs rhyngosod pan fo swm cyfanredol y cyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos oni bai bod y cyfnodau o brofiad gwaith yn wasanaeth di-dâl.

(9) At ddibenion paragraff (8), ystyr "gwasanaeth di-dâl" yw—

(a) gwasanaeth di-dâl mewn ysbyty neu mewn labordy gwasanaeth iechyd cyhoeddus neu gydag ymddiriedolaeth gofal sylfaenol yn y Deyrnas Unedig,

(b) gwasanaeth di-dâl gydag awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu i arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â gofal plant a phobl ifanc, iechyd neu les, neu gyda chorff gwirfoddol sy'n darparu cyfleusterau neu sy'n cynnal gweithgareddau o natur debyg yn y Deyrnas Unedig,

(c) gwasanaeth di-dâl yn y gwasanaeth carchardai neu'r gwasanaeth prawf ac ôl-ofal yn y Deyrnas Unedig,

(d) ymchwil ddi-dâl mewn sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu, yn achos myfyriwr cymwys sy'n bresennol mewn sefydliad tramor fel rhan o'i gwrs, mewn sefydliad tramor, neu

(e) gwasanaeth di-dâl gydag—

(i) Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd yn unol ag adran 28 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**31**),

(ii) Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**32**) neu Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd yn unol ag adran 22 o'r Ddeddf honno,

(iii) Bwrdd Iechyd neu Fwrdd Iechyd Arbennig a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(**33**),

(iv) yr Asiantaeth Ranbarthol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd a Llesiant Cymdeithasol a sefydlwyd o dan adran 12 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2009(**34**),

(v) GIG Lloegr, y corff corfforedig a sefydlwyd o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu fwrdd gofal integredig a sefydlwyd o dan Bennod A3 o Ran 2 o'r Ddeddf honno, neu

(vi) y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal a sefydlwyd o dan adran 232 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012(**35**)."

Pennod 5

Diwygiadau sy'n ymwneud â grantiau ar gyfer dibynyddion – personau sy'n ymadael â gofal

38. Yn rheoliad 77 (grantiau ar gyfer dibynyddion: cyfrifo'r swm sy'n daladwy), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Pan fo'r myfyriwr cymwys yn berson sy'n ymadael â gofal o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 49, swm y grant ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy yw'r uchafsymiau cyfanredol a geir o dan Gam 3 o baragraff (1)."

(**31**) 2006 p. 41.
(**32**) 2006 p. 42.
(**33**) 1978 p. 29.
(**34**) 2009 p. 1.
(**35**) 2012 p. 7.

39. Yng ngeiriau agoriadol rheoliad 78 (swm y grant oedolion dibynnol a'r grant gofal plant: pan fo partner y myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys), ar ôl "baragraff (2)" mewnosoder "neu (3A)".

Pennod 6

Diwygiadau sy'n ymwneud â phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth cyn-aelodau o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a'u plant

40. Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), ym mharagraff 2ZB (categori 2ZB - personau y rhoddwyd caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir a'u plant), yn is-baragraff (3)(b)—

(a) yn y geiriau o flaen Achos 1, yn lle "o dan unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r rheolau mewnfudo a bennir yn y naill neu'r llall o'r achosion a ganlyn" rhodder "yn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn";

(b) yn Achos 1, yn y geiriau agoriadol, ar ôl "31 Ionawr 2024," mewnosoder "o dan";

(c) yn Achos 2, yn y geiriau agoriadol, ar ôl "31 Ionawr 2024," mewnosoder "o dan";

(d) ar ôl Achos 2 mewnosoder—

"Achos 3

Yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar neu ar ôl 5 Hydref 2023 fel partner sydd wedi cael profedigaeth, o dan baragraff AF (GHK) 14.1 o Atodiad cyn-aelod o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997 i'r rheolau mewnfudo.

Achos 4

Yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros cyn 5 Hydref 2023, y tu allan i'r rheolau mewnfudo, ar y sail bod y person yn bartner sydd wedi cael profedigaeth i Gurkha a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997."

Pennod 7

Diwygiadau sy'n ymwneud â gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir

41. Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2ZC (categori 2ZC – gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir)—

(a) yn is-baragraff (1)(b), yn lle'r geiriau o "sydd" i "cyfnod" rhodder "sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly";

(b) yn is-baragraff (2), yn lle paragraff (a), ond nid y "neu" ar ei ôl, rhodder—

"(a) o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo—

(i) paragraff UKR 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin);

(ii) paragraff UKR 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin);

(iii) paragraff UKR 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin);

(iv) paragraff UKR 36.1 (Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin),".

Pennod 8

Diwygiadau sy'n ymwneud ag Antilles yr Iseldiroedd

42. Yn Atodlen 2, paragraff 11(1) (dehongli), yn y diffiniad o "tiriogaethau tramor"—

(a) hepgorer “Aruba,”;

(b) yn lle “Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten)” rhodder “y rhan Garibïaidd o Deyrnas yr Iseldiroedd (Aruba, Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten)”.

RHAN 7

Diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

Pennod 1

Cyflwyniad

43. Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**36**) wedi eu diwygio yn unol â’r Rhan hon.

Pennod 2

Diwygiadau sy’n ymwneud â phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth cyn-aelodau o’r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a’u plant

44. Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o “person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir”—

(a) yn y geiriau o flaen is-baragraff (1), yn lle “o dan unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a ganlyn o’r rheolau mewnfudo” rhodder “yn unrhyw un neu ragor o’r achosion a ganlyn”;

(b) yn is-baragraff (1), yn y geiriau agoriadol, ar ôl “31 Ionawr 2024,” mewnosoder “o dan”;

(c) yn is-baragraff (2), yn y geiriau agoriadol, ar ôl “31 Ionawr 2024,” mewnosoder “o dan”;

(d) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(3) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar neu ar ôl 5 Hydref 2023 fel partner sydd wedi cael profedigaeth, o dan baragraff AF (GHK) 14.1 o Atodiad cyn-aelod o’r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997 i’r rheolau mewnfudo;

(4) yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros cyn 5 Hydref 2023, y tu allan i’r rheolau mewnfudo, ar y sail bod y person yn bartner sydd wedi cael profedigaeth i Gurkha a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997;”.

Pennod 3

Diwygiadau sy’n ymwneud â gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir

45. Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir”, yn lle is-baragraff (a), ond nid y “neu” ar ei ôl, rhodder—

“(a) o dan unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a ganlyn o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo—

(i) paragraff UKR 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin);

(**36**) O.S. 2018/656 (Cy. 124), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2023/87 (Cy. 17), O.S. 2023/633 (Cy. 97), O.S. 2024/810 (Cy. 131) ac O.S. 2025/728 (Cy. 125). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(ii) paragraff UKR 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin);

(iii) paragraff UKR 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin);

(iv) paragraff UKR 36.1 (Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin);".

46. Yn Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys), ym mharagraff 4C (gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir), yn is-baragraff (1)(b), yn lle'r geiriau o "sydd" i "cyfnod" rhodder "sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly".

Pennod 4

Diwygiadau sy'n ymwneud â phartneriaid a ddiogelir

47. Yn rheoliad 3 (myfyrwyr cymwys), ar ôl paragraff (10F) mewnosoder—

"(10FA) Pan—

(a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A"), yn rhinwedd bod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir, neu fod yn blentyn i berson o'r fath, yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig ar gyfer cwrs dynodedig, a

(b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, na fo gan A ganiatâd cyfredol mwyach i ddod i mewn neu i aros fel partner a ddiogelir, neu fel plentyn i berson o'r fath, ac nad yw caniatâd pellach i ddod i mewn neu i aros wedi cael ei roi,

bydd statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol."

Pennod 5

Diwygiadau sy'n ymwneud ag Antilles yr Iseldiroedd

48. Yn Atodlen 1, paragraff 1(1) (dehongli), yn y diffiniad o "tiriogaethau tramor"—

(a) hepgorer "Aruba;";

(b) yn lle "Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten)" rhodder "y rhan Garibïaidd o Deyrnas yr Iseldiroedd (Aruba, Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten)".

RHAN 8

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

Pennod 1

Cyflwyniad

49. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**37**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

(**37**) O.S. 2019/895 (Cy. 161), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2019/1094, O.S. 2020/918 (Cy. 206), O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/403 (Cy. 100), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2023/87 (Cy. 17), O.S. 2023/633 (Cy. 97), O.S. 2024/501 (Cy. 79), O.S. 2024/810 (Cy. 131), O.S. 2025/16 (Cy. 6) ac O.S. 2025/728 (Cy. 125). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Pennod 2

Diwygiadau sy'n ymwneud â'r coronafeirws

50. Yn rheoliad 10(1) (myfyrwyr cymwys – eithriadau), yn Eithriad 10, hepgorer—

(a) "*Achos 1*", a

(b) *"Achos 2*

(a) bo diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2020; a

(b) na fo P yn gallu bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws."

51. Yn Atodlen 1 (dehongli), paragraff 3(1) (dehongli termau allweddol eraill), hepgorer y diffiniad o "coronafeirws".

52. Yn Atodlen 4 (mynegai o dermau wedi eu diffinio), paragraff 1, yn Nhabl 3, hepgorer "coronafeirws" yng ngholofn 1 a'r cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

Pennod 3

Diwygiad sy'n ymwneud â phartneriaid a ddiogelir

53. Ar ôl rheoliad 12G (personau y mae eu caniatâd Calais wedi dod i ben) mewnosoder—

"12GA. Personau y mae eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros fel partner a ddiogelir wedi dod i ben

Pan—

(a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A"), yn rhinwedd bod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir, neu fod yn blentyn i berson o'r fath, yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig, a

(b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, na fo gan A ganiatâd cyfredol mwyach i ddod i mewn neu i aros fel partner a ddiogelir, neu fel plentyn i berson o'r fath, ac nad yw caniatâd pellach i ddod i mewn neu i aros wedi cael ei roi,

bydd statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol."

Pennod 4

Diwygiadau sy'n ymwneud ag Antilles yr Iseldiroedd

54. Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), paragraff 13(1) (dehongli), yn y diffiniad o "tiriogaethau tramor"—

(a) hepgorer "Aruba,";

(b) yn lle "Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten)" rhodder "y rhan Garibïaidd o Deyrnas yr Iseldiroedd (Aruba, Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten)".

Pennod 5

Diwygiadau sy'n ymwneud â phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth cyn-aelodau o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a'u plant

55. Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2B (categori 2B - personau y rhoddwyd caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir a'u plant), yn is-baragraff (3)(b)—

(a) yn y geiriau o flaen Achos 1, yn lle "o dan unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r rheolau mewnfudo a bennir yn y naill neu'r llall o'r achosion a ganlyn" rhodder "yn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn";

(b) yn Achos 1, yn y geiriau agoriadol, ar ôl "31 Ionawr 2024," mewnosoder "o dan";

(c) yn Achos 2, yn y geiriau agoriadol, ar ôl "31 Ionawr 2024," mewnosoder "o dan";

(d) ar ôl Achos 2 mewnosoder—

"Achos 3

Yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar neu ar ôl 5 Hydref 2023 fel partner sydd wedi cael profedigaeth, o dan baragraff AF (GHK) 14.1 o Atodiad cyn-aelod o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997 i'r rheolau mewnfudo.

Achos 4

Yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros cyn 5 Hydref 2023, y tu allan i'r rheolau mewnfudo, ar y sail bod y person yn bartner sydd wedi cael profedigaeth i Gurkha a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997."

Pennod 6

Diwygiadau sy'n ymwneud â gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir

56. Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2C (categori 2C – gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir)—

(a) yn is-baragraff (1)(b), yn lle'r geiriau o "sydd" i "cyfnod" rhodder "sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly";

(b) yn is-baragraff (2), yn lle paragraff (a), ond nid y "neu" ar ei ôl, rhodder—

"(a) o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo—

(i) paragraff UKR 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin);

(ii) paragraff UKR 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin);

(iii) paragraff UKR 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin);

(iv) paragraff UKR 36.1 (Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin),".

Vikki Howells
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
13 Ionawr 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 3

EDUCATION, WALES

The Education (Student Finance) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations, which are in eight Parts, amend various regulations which make provision about, and in connection with, student finance.

Part 1 makes provision about the coming into force and application of these Regulations. Part 2 and Parts 4 to 8 make amendments to the following regulations—

(a) Part 2 amends the Education (Fees and Awards) (Wales) Regulations 2007 (S.I. 2007/2310 (W. 181)) ("the 2007 Regulations"),

(b) Part 4 amends the Higher Education (Qualifying Courses, Qualifying Persons and Supplementary Provision) (Wales) Regulations 2015 (S.I. 2015/1484 (W. 163)) ("the 2015 Regulations"),

(c) Part 5 amends the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2017 (S.I. 2017/47 (W. 21)) ("the 2017 Regulations"),

(d) Part 6 amends the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 (S.I. 2018/191 (W. 42)) ("the 2018 Regulations"),

(e) Part 7 amends the Education (Postgraduate Doctoral Degree Loans) (Wales) Regulations 2018 (S.I. 2018/656 (W. 124)) ("the Doctoral Degree Loan Regulations"), and

(f) Part 8 amends the Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019 (S.I. 2019/895 (W. 161)) ("the 2019 Regulations").

Parts 2 and 4 to 8 of these Regulations amend—

